

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRUWELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470  
(Ffordd Heulog, Llan Ffestiniog,  
Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20  
mya Rhan-amser) 2018

The A470 Trunk Road (Sun Street,  
Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Part-  
time 20 mph Speed Limit) Order  
2018

Gwnaed

Mehefin 2018

Made

June 2018

Yn dod i rym

11 Mehefin 2018

Coming into force

11 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar  
gyfer Cefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a  
roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf  
Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl  
ymgyngori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru,  
yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470  
Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon  
them by section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road  
Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation  
with the Chief Officer of North Wales Police, make  
this Order.

## Enwi, Cychwyn a Dehongli

## Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn  
Cefnffordd yr A470 (Ffordd Heulog, Llan Ffestiniog,  
Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser)  
2018 a daw i rym ar 11 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road  
(Sun Street, Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Part-time 20  
mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force  
on 11 June 2018.

## 2. Yn y Gorchymyn hwn:

## 2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y  
dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf  
Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

- (a) any vehicle being used for the purposes  
described in section 87 of the Road Traffic  
Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf  
Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan  
baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd  
1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf  
Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi,  
mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o  
ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf  
Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen  
4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15),  
paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysoedd 2013  
(p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act  
1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the  
New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8,  
paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and  
paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act  
2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh  
Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act  
2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised  
Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the  
Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2)  
and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" (*"the trunk road"*) yw Cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy;

ystyr "lluoedd arbennig" (*"special forces"*) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Ffordd Heulog, Llan Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 112 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lle'r Farchnad hyd at bwynt 44 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4391.

### Cymhwys

4. Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei ddangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

5 Mehefin 2018



Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" (*"lluoedd arbennig"*) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" (*"y gefnffordd"*) means the A470 Maentwrog to East of Conwy Trunk Road.

### Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road at Sun Street, Llan Ffestiniog, Gwynedd that extends from a point 112 metres west of the centre-point of its junction with Lle'r Farchnad to a point 44 metres south-east of the centre-point of its junction with the B4391.

### Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.


Dated

5 June 2018



Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government



Symor Gwynedd - 100023387 - 2017